Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

19 Tachwedd 2025

www.llyw.cymru

# Cynnwys


**1. Sylwebaeth ar y Camau Gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ........ 3**

**2. Gwybodaeth arall ........ 8**

**3. Cadw ........ 16**

**4. Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ........ 19**

**5. Y Celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru ........ 21**

**6. Y Cyfryngau a Darlledu – Diwydiannau Creadigol ........ 24**

**7. Cymorth i'r sector cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu ........ 27**

**8. Chwaraeon ........ 30**

**9. Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ........ 32**

# 1. Sylwebaeth ar y Camau Gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

Dadansoddiad o ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2026-27 (fel sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, y Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon) fesul Prif Grŵp Gwariant (MEG), Maes Rhaglen Gwariant, Cam Gweithredu a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb.

1. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cyllidebau a ddyrannwyd i'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, y Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon sydd o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio fel y'u cyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 ar 3 Tachwedd.

2. Mae hyn yn cadarnhau cyfanswm dyraniad o £216.0m sy'n cynnwys £148.1m o gyllid adnoddau a £67.9m o gyllid cyfalaf. Mae'r cyllid adnoddau yn cynnwys £135.9m o gyllid refeniw a £12.2m o gyllid heb fod yn arian parod. Mae'r cyllid cyfalaf yn cynnwys £68.9m o gyfalaf traddodiadol a gwerth £1.0m o ad-daliadau cyfalaf trafodiadau ariannol.

3. Hefyd mae gwerth £33.0m o gyllid Gwariant a Reolir yn Flynyddol wedi'i gynnwys ar gyfer addasiadau pensiwn yn ymwneud â Chyrff Hyd Braich a darpariaeth ar gyfer dyledion Cadw nad yw wedi cael ei defnyddio hyd yn hyn.

4. Ceir dadansoddiad llawn o'r cyllid hwn fesul Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad A.

| | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2026-27 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2026-27 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | | | | |
| Adnoddau Cyllidol (Refeniw) | 122,467 | 10,725 | 133,192 | 2,709 | 135,901 |
| Adnoddau Anghyllidol (heb fod yn arian parod) | 12,190 | - | 12,190 | - | 12,190 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **134,657** | **10,725** | **145,382** | **2,709** | **148,091** |
| Cyfalaf | 73,787 | - 7,352 | 66,435 | 2,477 | 68,912 |
| Cyfalaf – FT | - 500 | 500 | - | - 1,000 | - 1,000 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **73,287** | **- 6,852** | **66,435** | **1,477** | **67,912** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a Chyfalaf** | **207,944** | **3,873** | **211,817** | **4,186** | **216,003** |
| AME Adnoddau | 33,000 | | 33,000 | | 33,000 |
| **Cyfanswm AME** | **33,000** | **-** | **33,000** | **-** | **33,000** |
| **Cyfanswm** | **240,944** | **3,873** | **244,817** | **4,186** | **249,003** |

5. Mae ein sectorau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon, yn enwedig ein cyrff hyd braich a Cadw, wedi bod yn hollbwysig wrth gefnogi economïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cymunedau a chefnogi ein hagenda i fynd i'r

afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig anghydraddoldebau hil, a sicrhau mwy o fynediad i gymunedau ledled Cymru. Maent yn darparu lleoedd gwych i bobl fyw, gweithio, astudio ac ymweld â nhw. Mae cyllid drwy ein cyrff diwylliannol a chwaraeon yn fuddiol i fywydau plant a phobl ifanc, sy'n ddefnyddwyr ac yn gyfranwyr gweithgar at y celfyddydau, treftadaeth a'r sector diwylliannol. Drwy'r Gyllideb Ddrafft hon, mae cyllid i gyrff hyd braich wedi cynyddu i £125.4m sy'n cynnwys £99.5m o gyllid refeniw; £6.7m o gyllid heb fod yn arian parod; ac £19.2m o gyllid cyfalaf. Ceir rhagor o wybodaeth yn ddiweddarach yn y papur hwn am gyllid y cyrff hyd braich.

6. Cedwir y £90.6m o gyllid sy'n weddill gan Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu Cadw (£17.5m o gyllid refeniw, £5.5m o gyllid heb fod yn arian parod a £9.2m o gyllid cyfalaf), Cymru Greadigol (£8.4m o gyllid refeniw, £0.01m o gyllid heb fod yn arian parod a £7.5m o gyllid cyfalaf), Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (£0.6m o gyllid refeniw a £0.2m o gyllid cyfalaf), a hefyd i ddatblygu ein blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon (£9.9m o gyllid refeniw a £32.8m o gyllid cyfalaf). Nid oes dyraniadau FT yn y gyllideb hon ac mae'r gostyngiad o £1.0m yn adlewyrchu'r proffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt mewn perthynas â benthyciad a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol i Undeb Rygbi Cymru.

7. Mae cyfanswm dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol yn cynnwys refeniw gwerth £9.9m a chyfalaf gwerth £32.8m, sy'n golygu y gallwn barhau i fuddsoddi yn y maes hwn. Mae'r cyllid hwn yn ein galluogi i gefnogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yn unol â'n cyfrifoldebau fel yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer y sectorau hynny. Byddwn yn gweithio'n strategol gyda chyrff cefnogi allweddol y sectorau i ddatblygu capasiti a chydnerthedd y sectorau hynny, gan sicrhau bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu cyflawni, a bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal er budd defnyddwyr. Rydym yn cefnogi mentrau cydweithredol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, gwerth am arian, cydnerthedd gwasanaethau a mynediad cyfartal i gasgliadau ym mhob sector. Byddwn yn parhau i helpu'r sector i greu'r seilwaith sydd ei angen i helpu i ddarparu gwasanaethau digidol.

8. Drwy bartneriaethau cyllido â'n cyrff cefnogi allweddol yn y sectorau, trefniadau hyfforddi a gwaith i ddatblygu'r gweithlu a phrosiectau a rhaglenni gwahanol, byddwn yn sicrhau bod asedau ffisegol a digidol sy'n rhan o gasgliadau archifau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn cael eu rheoli, eu cadw a'u hamddiffyn, a'u bod yn hygyrch ac yn cael eu defnyddio.

9. O fewn y sector llyfrgelloedd, yn ogystal â monitro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau llyfrgell yn unol â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi mynediad digidol at adnoddau electronig drwy'r Gwasanaeth Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol a Llyfrgelloedd.Cymru.

10. Bydd y rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid yn parhau i gyllido datblygiadau a gwelliannau cyfalaf, gan gynnwys prosiectau digidol, er mwyn cefnogi datgarboneiddio a hyrwyddo cydraddoldebau. Mae rowndiau pellach o Gynllun Grant Cyfalaf Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant wedi'u cynllunio hefyd. Bydd y rhain, er enghraifft, yn galluogi amgueddfeydd ac archifau lleol a llyfrgelloedd i wella eu dulliau o storio casgliadau a buddsoddi mewn gwella seilwaith lleol. Bydd yr holl weithgarwch hwn yn cyd-fynd â'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

## Alldro terfynol ar gyfer 2024-25 a rhagolwg o'r alldro ar gyfer 2025-26.

11. Caiff alldro terfynol ar gyfer 2024-25 a rhagolwg o'r alldro ar gyfer 2025-26 eu darparu yn atodiad A.

## Dadansoddiad ac esboniad o newidiadau rhwng 2025-26 a 2026-27.

12. Bu newidiadau i'r llinell sylfaen sy'n gyfanswm o £10.725m ar gyfer cyllid refeniw a gostyngiad o £6.852m mewn cyllid cyfalaf fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27. Bu dyraniadau refeniw o £2.709m hefyd a £0.977m o ddyraniadau cyfalaf fel rhan o'r gyllideb. Ceir tablau manwl gyda'r newidiadau yn atodiad A.

Refeniw

13. Daw'r prif newid i ganlyniadau'r llinell sylfaen refeniw o ganlyniad i gyfnewid cyfalaf am refeniw ar gyfer Cadw (£7.352m), sy'n adlewyrchu'r newid yn y polisi cyfrifyddu ar gyfer cadwraeth. Mae'r gwariant hwn a ddosbarthwyd fel cyfalaf yn flaenorol bellach yn ymddangos fel refeniw ac mae gostyngiad cyfatebol yn y dyraniad cyfalaf.

14. Mae newidiadau eraill i'r llinell sylfaen yn cynnwys dyraniad o £1.97m i Medr i gefnogi darpariaeth conservatoire cerdd a drama yn seiliedig ar berfformiad, cynnydd yng nghyflogau staff (£0.439m) a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr (£1.164m) i gyrff hyd braich ac i staff Rhaglen Llywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu newidiadau yn 2025-26 a gostyngiad o £0.2m ar gyfer Canolfan Gelfyddydau Wyeside.

15. Gwnaed cyfanswm o £2.709m mewn dyraniadau fel rhan o'r gyllideb sy'n cynnwys dyraniad ychwanegol o £1.4m ar gyfer ardrethi annomestig stiwdios. Ni chaiff yr ailwerthusiad ei gwblhau tan fis Ebrill 2026 sy'n golygu y bydd angen refeniw ychwanegol i gefnogi trydedd flwyddyn y grant ardrethi annomestig a chaiff hyn ei gadarnhau cyn y cam cynllunio busnes. Bydd y cyllid yn golygu y gall stiwdios yng Nghymru barhau i fod yn gystadleuol a pheidio â bod dan anfantais o gymharu â stiwdios eraill sydd hefyd yn cael rhyddhad ardrethi ledled y DU.

16. Yn ogystal â'r cyllid ychwanegol sydd wedi dod yn rhan o'r llinell sylfaen yn 2025-26 ar gyfer cyflogau yn y sector cyhoeddus, fel rhan o gyllideb 2026-27 rydym wedi dyrannu dyfarniad cyflog gwerth £1.117m a Chostau Yswiriant Gwladol gwerth £0.192m i'n cyrff hyd braich ac i staff Rhaglen Llywodraeth Cymru.

<u>Cyfalaf</u>

17. Fel yr amlinellir uchod, mae'r prif newid i'r llinell sylfaen cyfalaf yn adlewyrchu'r newid yn y polisi cyfrifyddu ar gyfer cadwraeth.

18. Rydym wedi cynyddu'r dyraniadau cyfalaf mewn cymorth grant £2.477m i Amgueddfa Cymru (£0.500m); Llyfrgell Genedlaethol Cymru (£0.250m); Chwaraeon Cymru (£0.500m) a Chyngor Celfyddydau Cymru (£0.500m), i'w galluogi i barhau i fuddsoddi yn eu hystadau craidd, eu cyfleusterau ac yn eu rhaglenni grant buddsoddiad cyfalaf. Bu dyraniad gwerth £0.227m i Cadw hefyd er mwyn cefnogi buddsoddiad a grantiau i'r sector treftadaeth ehangach.

19. Gwnaed cynnydd o £0.500m o 2025-26 i Linell Wariant yn y Gyllideb Cymru Greadigol sy'n cefnogi cwmnïau cynhyrchu a chwmnïau datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau a fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol yn ogystal â chreu swyddi ar gyfer y cynyrchiadau hynny o'r tu allan i Gymru sy'n awyddus i ffilmio yng Nghymru.

<u>Cyfalaf Trafodiadau Ariannol</u>

20. Mae newid wedi bod i'r gyllideb cyfalaf trafodiadau ariannol er mwyn ychwanegu'r ad-daliadau ar gyfer 2025-26 yn ôl at y llinell sylfaen.

21. Nid oes dyraniadau FT yn y gyllideb hon ac mae'r gostyngiad o £1.0m yn adlewyrchu'r proffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt mewn perthynas â benthyciad a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol i Undeb Rygbi Cymru.

# 2. Gwybodaeth arall

## Gwybodaeth am y ffordd y caiff camau i weithredu portffolios y Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, y Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon a chanlyniadau cysylltiedig eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

22. Ers cael fy mhenodi'n Weinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol y llynedd, rwyf wedi parhau i fod yn falch o'r datblygiadau cadarnhaol rydym wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys lansio'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant ym mis Mai. Mae rheoli adnoddau'n effeithiol yn parhau i fod yn allweddol i ddatblygu ein gwaith a'r Rhaglen Lywodraethu.

23. Mae'r meysydd polisi sy'n rhan o'm portffolio yn cwmpasu llawer o agweddau ar Lywodraeth. Gallant wneud newid sylweddol a pharhaol i fywydau pobl a chymunedau ledled Cymru. Y rhain yw'r pethau y mae pobl yn mwynhau eu gwneud ac sy'n denu pobl i ymweld â Chymru.

24. Rydym am fod yn uchelgeisiol o ran sicrhau bod gan bobl fynediad at ein sefydliadau diwylliant, treftadaeth a chelfyddydol, eu bod yn cael budd ohonynt ac yn cael eu cynrychioli ganddynt. Mae pawb yn gwybod bod pethau wedi bod yn anodd a bod blynyddoedd o gyni wedi niweidio ein gwead diwylliannol yn ogystal â'n gwead cymdeithasol. Wrth inni adeiladu'r sylfeini ar gyfer adfer, rhaid inni gofio y dylid cyflawni twf mewn ffordd gynhwysol.

25. Mae gennym brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd. Er enghraifft, mae gweithdrefnau llywodraethu a monitro ar waith ar gyfer ein sefydliadau cenedlaethol sy'n adlewyrchu natur ein cydberthnasau â nhw.

26. Nodir blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob corff hyd braich yn eu llythyrau cylch gwaith, a ddefnyddir ganddynt fel sail ar gyfer eu cynlluniau gweithredol a'u dangosyddion perfformiad allweddol. Rwy'n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn â phob sefydliad, ac mae swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn eu cynlluniau gweithredol yn ffurfiol yn ystod cyfarfodydd chwarterol ac yn fwy rheolaidd drwy eu cydberthnasau gwaith agos ag uwch-dimau gweithredol y cyrff hyd braich. Ar wahoddiad y cyrff, mae swyddogion hefyd yn mynd i gyfarfodydd Bwrdd fel sylwedyddion, sy'n rhoi trosolwg da i Lywodraeth Cymru o broblemau posibl. Creffir ar hawliadau cymorth grant misol er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn llinellau gwariant penodedig.

27. Caiff prosiectau mawr eu monitro gan ddefnyddio Adnodd Adrodd Gwybodaeth Busnes Llywodraeth Cymru. Mae gan bob prosiect mawr drefniadau llywodraethu sy'n berthnasol i'r prosiect penodol dan sylw. Caiff y rhain eu hadolygu'n aml i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r cam y mae'r prosiect wedi'i gyrraedd. Caiff buddsoddiadau cyfalaf mawr eu hategu gan achosion busnes sy'n cael eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn darparu gwerth am arian. Mae hyn yn cynnwys ystod o swyddogion Llywodraeth Cymru ac adolygiadau porth annibynnol.

28. Caiff grantiau a chontractau cyfalaf a refeniw llai eu dyfarnu drwy broses gwneud cais agored neu drwy gomisiwn uniongyrchol. Caiff y rhain eu monitro gan swyddogion drwy gydol oes y prosiect, a chytunir ar yr elfennau i'w cyflawni a'r pwyntiau gwirio.

29. Caiff yr holl gyllid a ddarperir i gefnogi prosiectau a rhaglenni sy'n darparu yn erbyn y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant ei olrhain yn unol â'n prosesau ar gyfer grantiau a chaffael. Bydd swyddogion yn cadw cysylltiad agos â'r rheini sy'n cael cyllid, gan gyfarfod yn rheolaidd er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, herio pan fo angen, a sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â'r cynlluniau gwreiddiol ac yn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig.

30. Mae Cynllun Tystiolaeth yr Is-adran Diwylliant yn cyflwyno'r prosiectau ymchwil, gwerthuso a chasglu data y mae'r Is-adran naill ai yn eu cynnal neu wedi ymrwymo iddynt. Caiff ei ddiweddaru bob blwyddyn, ar sail trafodaethau â staff a rhanddeiliaid ehangach, i sicrhau bod gweithgarwch yn cefnogi blaenoriaethau allweddol yr Is-adran ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

31. Mae trefniadau llywodraethu prosiect ar waith ar gyfer pob prosiect cyfalaf gwerth uchel cymhleth, yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, sy'n cynnwys penderfyniadau porth allweddol ac adolygiadau asesu prosiect. Mae Cadw yn gweithredu Bwrdd Rhaglen Gyfalaf sy'n mynd ati'n weithredol i fonitro'r broses o gyflawni ei brosiectau cyfalaf, gan gynnwys rheoli newidiadau ac adolygiadau asesu ar ôl cwblhau. Rhaid i brosiectau unigol ddangos gwerth am arian yn ogystal â buddiannau mesuradwy ac amcanion economaidd sy'n gyson â nodau Cadw a Llywodraeth Cymru.

32. Mae cynllun busnes a gweithrediadau Cadw hefyd yn destun proses graffu gan Fwrdd cynghori annibynnol sy'n cynnwys aelodau sydd â'r arbenigedd angenrheidiol i ddarparu her adeiladol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter

i graffu ar berfformiad Cadw yn erbyn ei gynllun busnes a'i adroddiadau ariannol.

33. Mae prosesau ar waith ar gyfer cynlluniau ariannu Cymru Greadigol i asesu ceisiadau yn erbyn meini prawf sy'n cynnwys effaith economaidd yn ogystal â'r gallu i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau thematig ehangach. Mae trefniadau monitro ar waith, yn ystod y cam cyflawni ac ar ôl i brosiectau gael eu cwblhau, er mwyn asesu cyflawniadau yn erbyn yr allbynnau a fwriadwyd. Bydd Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol yn nodi ac yn craffu ar gynllun busnes Cymru Greadigol hefyd, ac mae'n cyfarfod hyd at bedair gwaith y flwyddyn i adolygu cynnydd yn erbyn ei berfformiad a'i brosesau cyflawni. Mae gwerthusiadau annibynnol o gyllid cynhyrchu a datblygu Cymru Greadigol yn mynd rhagddynt er mwyn asesu eu heffaith.

## Manylion am bolisïau neu raglenni penodol o fewn y Prif Grwpiau Gwariant perthnasol (sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, y Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon) y bwriedir iddynt fod yn ataliol a sut y caiff gwerth am arian a chostau a manteision eu gwerthuso.

34. Mae'r cynigion cyllidebol hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cymaint â phosibl. Mae'r penderfyniadau gwariant nid yn unig wedi ystyried y ffordd orau o ateb y galw presennol am wasanaethau ond maent hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi ymyriadau a all atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae'r dull ataliol hwn yn rhan bwysig o'n gwaith cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn awr ac yn y dyfodol.

35. Mae'r celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth yn chwarae rôl bwysig o ran mynd i'r afael ag anfantais ac atal tlodi. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, megis gwirfoddoli mewn amgueddfa, roi hwb i sgiliau, hunan-barch, dysgu a dyhead, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir anfantais economaidd.

36. Mae diwylliant, y diwydiannau creadigol, yr amgylchedd hanesyddol a chwaraeon yn elfennau hanfodol o'n bywyd cenedlaethol ac yn rhan annatod o'n llesiant meddyliol a chorfforol unigol a chyfunol. Amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, clybiau celfyddydau a chwaraeon, cyfleusterau a safleoedd hanesyddol yw canolbwynt llawer o gymunedau ledled Cymru.

37. Mae Cadw yn cynnig ystod o gyfleoedd i gefnogi iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol, gan gynnwys rhaglen wirfoddoli arobryn ar draws y safleoedd y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae Cadw hefyd yn ariannu prosiectau archaeoleg a threftadaeth a reolir gan Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru sy'n cynnig cyfleoedd i gymunedau ymgysylltu â'r profiad o gloddio ac archwilio treftadaeth leol. Mae mentrau newydd yn cynnwys cyfranogiad Cadw yng nghynllun peilot Seiniau Gwyllt Cymru sy'n gweithio gyda phreswylwyr mewn cartrefi gofal fel y gallant hwythau hefyd brofi seiniau a delweddau 360 o fyd natur yng Nghastell Dinefwr, a phrosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau fel y prosiect tapestri yng Nghaernarfon gyda Cheidwaid Ifanc Rhosgadfan a menywod o Age Cymru. Mae Cadw hefyd yn darparu ymweliadau ysgol am ddim ac yn cynnig cymorth ar gyfer costau trafnidiaeth i safleoedd hanesyddol er mwyn annog cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored.

38. Mae'r sectorau diwylliant, chwaraeon, creadigol a threftadaeth yn chwarae rôl hanfodol o ran creu swyddi a chefnogi economi Cymru. Maent yn dangos manteision economaidd cryf o ran yr economi ymwelwyr, adfywio a chreu lleoedd, a manteision amgylcheddol cryf drwy ddatgarboneiddio a chymorth ar gyfer bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol. Mae gan Cadw raglen helaeth a chyson o waith cynnal a chadw ysgafn ar gyfer y 132 o henebion hanesyddol sydd dan ofal y wladwriaeth ledled Cymru, ac fe'i cefnogir gan ei dîm mewnol o grefftwyr arbenigol sy'n cynnwys gweithwyr dan hyfforddiant. Caiff yr holl waith ei roi ar dendr er mwyn sicrhau gwerth am arian a chost-effeithiolrwydd.

39. Mae Cadw yn ymwneud â rhaglen waith i wella'r ffordd y caiff y mannau gwyrdd ger ei henebion eu rheoli'n sylfaenol o blaid bioamrywiaeth er mwyn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r risgiau argyfwng natur sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Caiff yr holl fuddsoddiadau a rhaglenni eu hasesu am eu heffeithiau ar newid hinsawdd a sut y gallant gyfrannu at gydnerthedd yr amgylchedd hanesyddol. Daeth prosiect ymchwil dan arweiniad yr Athro Carolyn Hayles ac a ariannwyd gan Ymchwil ac Arloesi y DU i ben eleni ac mae'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu dull llwybrau strategol o ymaddasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

40. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi iechyd a llesiant a chanlyniadau cadarnhaol. Mae cynllun Darllen yn Well Cyngor Llyfrau Cymru a'i waith i hyrwyddo darllen a darparu llyfrau ac adnoddau addysgol yn chwarae rhan bwysig wrth wella safonau llythrennedd a chyrhaeddiad addysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn y sector sgrin, mae cymorth Cymru Greadigol ar gyfer y sector darlledu ac annibynnol yn gwneud cyfraniad pwysig at gydlyniant cymdeithasol a chynhwysiant, gan gysylltu pobl o gefndiroedd

gwahanol, yn ogystal â meithrin ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth genedlaethol. Mae Cymru Greadigol yn gweithio gyda sectorau â blaenoriaeth i wella iechyd a llesiant mewn gweithleoedd creadigol, drwy'r prosiect Hwyluswyr Lles a thrwy gysoni mecanweithiau ariannu i biler llesiant y Contract Economaidd, yn ogystal â chefnogi ystod o brosiectau i ddatblygu sgiliau a thalent, mewn ffordd gynhwysol, agored a hygyrch.

41. Mae'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn glir o ran sut rydym yn ystyried pwysigrwydd cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol fel rhywbeth sy'n bwysig ar gyfer llesiant unigol a chymunedol.

42. Yn 2025-26, gwnaethom fuddsoddi cyllid cyfalaf sylweddol mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, safleoedd treftadaeth a lleoliadau celfyddydau ledled Cymru, a daeth llawer o'r cymorth hwn o gyllid a glustnodwyd i ddarparu'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant. Roedd yr ysgogwyr ar gyfer gwneud penderfyniadau yn canolbwyntio ar alluogi pobl i gael mynediad at ddiwylliant yn haws; cefnogi'r sector diwylliant i fod yn fwy gwydn i bethau fel effeithiau newid yn yr hinsawdd; gofalu am ein casgliadau, a chefnogi anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd.

43. Rydym hefyd yn cydnabod natur ataliol chwaraeon o ran cefnogi iechyd a llesiant y genedl. Bydd ein buddsoddiad mewn cyfleusterau chwaraeon, er enghraifft, gyda buddsoddiad cyfalaf gwerth £10.5m i Chwaraeon Cymru y flwyddyn nesaf, yn helpu i hybu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

44. Mae buddsoddiadau cyfalaf eraill wedi cynnwys cyllid i'r naw oriel bartner ar gyfer Celf, sef cynllun i rannu'r casgliad cenedlaethol o gelf gyfoes ledled Cymru, gan ddarparu mwy o hyn i bobl yn llawer agosach i ble maent yn byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld ag ef. Byddwn yn dadlau bod yr holl gyllid wedi bod yn canolbwyntio ar ymdrin ag atal – atal achosion o allgáu, lleihau risgiau ac atal niwed.

45. Mae cynlluniau refeniw – megis cyllid ar gyfer cynllun bwrsariaeth y Grŵp Addysg mewn Amgueddfeydd fel y gall ysgolion ymweld ag amgueddfeydd lleol, cyllid i Gyngor Llyfrau Cymru gynnal cynllun Sêr y Silffoedd mewn llyfrgelloedd, a chyllid i Gyngor Celfyddydau Cymru gynnal rowndiau wedi'u targedu o gyllid ar gyfer ysgolion mewn cymunedau tlotach neu ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol – oll yn canolbwyntio ar ymdrin ag achosion o allgáu. Bydd yr holl gynlluniau hyn yn cynnwys gwerthusiad o effaith.

46. Mae prosiectau eraill yn canolbwyntio ar gefnogi llesiant, atal afiechyd, unigrwydd ac ynysigrwydd. Er enghraifft, mae cynllun hirsefydlog Darllen yn Well yn fenter ar y cyd i helpu pobl i ddeall a rheoli eu hiechyd a'u llesiant gan ddefnyddio deunyddiau darllen defnyddiol a argymhellwyd gan arbenigwyr iechyd. Mae ein buddsoddiad parhaus yn rhaglen Tŷ Atgofion Cymru wedi gwella ansawdd bwyd pobl sy'n byw gyda dementia. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i'r prosiect hwn greu pecynnau o fewn y cynnwys Cymraeg sy'n cynrychioli unigolion LHDTC+ a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru.

## Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i ddarparu ar gyfer deddfwriaeth a allai gael effaith yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fel y bo'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, y Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon.

47. Mae asesu costau deddfwriaeth a'r effaith ar y rhai sy'n destun y ddeddfwriaeth yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisïau. Rwy'n cydnabod nad oes arian diddiwedd ar gael ar gyfer deddfwriaeth ac y bydd yn rhaid talu am bob ymrwymiad newydd yn y maes hwn drwy wneud toriadau rhywle arall.

48. Dyma pam mae pob bil yn destun asesiad cadarn o gostau a manteision, a gyflawnir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r asesiadau effaith rheoleiddiol a gaiff eu paratoi ar gyfer Biliau'r Llywodraeth. Diben hyn yw sicrhau bod ein penderfyniadau yn cael eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

49. Mae camau'n cael eu cymryd i wella eglurder a chysondeb asesiadau effaith rheoleiddiol ond bydd newidiadau i'r bil yn ystod y cam craffu a ffactorau eraill yn arwain yn anochel at wahaniaethau rhwng y costau amcangyfrifedig pan gyhoeddir yr asesiad a'r costau gwirioneddol yn ystod y broses weithredu. Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i'r Pwyllgor Cyllid, mae tabl sy'n dangos costau gweithredu'r ddeddfwriaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn nogfen Naratif y Gyllideb a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd. Nid oes unrhyw gostau gweithredu yn gysylltiedig ag unrhyw ddeddfwriaeth yn y maes hwn ar gyfer 2026-27.

## Goblygiadau effaith barhaus ymadawiad y DU â'r UE a'r argyfwng costau byw ar bortffolios y Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, Cyfathrebu, y

## Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon a'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r effaith barhaus.

50. Un o'r blaenoriaethau ar gyfer diwylliant yw creu cyfleoedd i bawb. Pan ailagorwyd y Neuadd Fawr yng Nghastell Caerffili, cyhoeddais y tocyn £1 newydd i'r rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol fwynhau'r safleoedd hanesyddol wedi'u staffio, gan wneud treftadaeth yn fwy cynhwysol a hygyrch i bawb. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd Cadw eisoes am ddim. Ers y lansiad ar 17 Gorffennaf, mae 5,051 o bobl wedi defnyddio'r tocyn, y mae 4,454 ohonynt yn ymwelwyr newydd â'r henebion. Mae'r fenter hon hefyd yn cefnogi dyhead Cadw i ddenu cynulleidfaoedd newydd.

51. Mae costau ynni yn parhau i beri pryder mawr. Ers dechrau'r argyfwng costau byw, mae swyddogion wedi cael gwybod am effeithiau fel amgueddfeydd lleol ac atyniadau treftadaeth yn cwtogi eu horiau agor, yn cau drwy gydol y gaeaf, yn lleihau lefelau gwres yn sylweddol ar y safle, ac amgueddfeydd yn codi eu ffioedd am wasanaethau. O ran chwaraeon, mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi mewn clybiau chwaraeon a chyfleusterau chwaraeon drwy ei Grant Arbed Ynni sy'n cefnogi ei agenda datgarboneiddio ond sydd hefyd yn lleihau gorbenion i'r sefydliadau hynny.

52. Mae pryderon hefyd yn cael eu mynegi am yr effeithiau canlyniadol ar iechyd meddwl a llesiant staff, gwirfoddolwyr, cyfranogwyr cymunedol ac ymwelwyr (y mae llawer ohonynt yn agored i niwed) na allant dreulio amser mewn rhai safleoedd o ganlyniad i'r oerfel neu gostau teithio.

53. Mae rhaglen Ewrop Greadigol wedi cael ei disodli gan y Gronfa Sgrin Fyd-eang a fu'n weithredol ers 2021. Er bod nifer bach o fusnesau yng Nghymru wedi elwa o ganlyniad i'r rhaglen hon, prin yw'r budd cyffredinol i Gymru. Mae Cronfa Sgrin Fyd-eang y DU yn parhau i roi diweddariadau ar weithgarwch a dyfarniadau rhanbarthol ac mae hefyd wedi cynnal sesiwn friffio yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gwledydd datganoledig wedi codi pryderon am y rôl gyfyngedig y maent yn ei chwarae yn y rhaglen. Hyd yma, nid oes unrhyw raglen wedi cael ei chyflwyno i gymryd lle is-raglen ddiwylliannol Ewrop Greadigol ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r gwledydd datganoledig eraill i godi materion a nodi opsiynau i gefnogi'r sector.

54. Mae costau cynyddol a chyllidebau llai yn parhau i effeithio ar sectorau ar draws y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys darlledwyr a chynyrchiadau Ffilm a Theledu sy'n pryderu bod costau uwch a materion

chwyddiannol yn ychwanegu at heriau cyllidebol presennol ac effeithiau ehangach ar hyfforddeion ar gynyrchiadau sgrin sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â chostau byw. Mae costau cynyddol ar ffurf prisiau ynni a chost deunyddiau yn effeithio ar y sector cyhoeddi hefyd, yn ogystal â'r sector cerddoriaeth, sydd hefyd yn wynebu refeniw is o ganlyniad i dueddiadau newydd yn ymddygiad cynulleidfaoedd a chyfraddau rhyddhad ardrethi is i leoliadau cerddoriaeth.

## Gwybodaeth am ddyraniadau yn eich portffolio i gyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant newydd.

55. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnal y lefel o fuddsoddiad mewn diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yn 2026-27, gyda chynnydd bach ar gyfer cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol a gofynion cyfalaf yn ein cyrff hyd braich. Bydd cyllid i gyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn cynnwys rhaglenni grant penodol, gwaith wedi'i gomisiynu a buddsoddiad yn ein cyrff hyd braich. Bydd yn ofynnol i'r cyrff hyd braich perthnasol – drwy eu cymorth grant, eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredol – sicrhau eu bod yn cyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

56. Roedd cryn ddiddordeb yn y cynlluniau grant cyfalaf ar gyfer y celfyddydau ac amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yn 2025-26, gan awgrymu y bydd galw parhaus am gyllid cyfalaf sylweddol yn y sectorau hynny. Yn 2026-27, byddwn yn parhau i ddarparu'r cynlluniau grant hyn, gan ailadrodd y galwadau a cheisio dyfarnu cyllid yn gynharach. Yn ystod 2026-27, caiff y gwaith ar yr adolygiad o seilwaith ei gwblhau, a bydd y canfyddiadau yn llywio cynllun strategol hirdymor ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf, gan ddechrau o 2027-28.

57. Bydd cyllid refeniw yn galluogi awdurdodau lleol, drwy gynllun grant a sefydlwyd yn 2025-26, i gefnogi eu blaenoriaethau diwylliannol lleol eu hunain, ar yr amod eu bod yn cyd-fynd â'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant. Byddwn hefyd yn ceisio ehangu cyllid i'n darparwyr yn y sector annibynnol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella cydraddoldeb a mynediad amrywiol, gan ganolbwyntio ar fynediad at brofiadau diwylliannol i blant a phobl ifanc; sicrhau gwelliannau i'r gweithlu, gan gefnogi dulliau'r sector o ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd a natur; meithrin arferion digidol da, a sicrhau y caiff ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol ei chofnodi a'i chefnogi i ffynnu. Bydd cyllid hefyd yn cefnogi rhaglenni cenedlaethol sydd eisoes yn bodoli fel Casgliad y Werin Cymru a chynllun Cyfuno, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant, megis cynhwysiant diwylliannol.

# 3. Cadw

## Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â Cadw, gan gynnwys targedau cynhyrchu refeniw, a ffigurau cynhyrchu incwm blynyddol diweddar (gan gynnwys elw net).

58. Mae cynhyrchu incwm yn allweddol i gynaliadwyedd ariannol Cadw. Yn 2026-27, mae Cadw yn amcangyfrif y bydd cyfanswm incwm yn cyrraedd £10.880m yn seiliedig ar brisiau mynediad ac yn erbyn y duedd bresennol o nifer sefydlog o ymwelwyr. Mae'n annhebygol y caiff y targed incwm ar gyfer 2025-26, sef £11.402m, ei gyflawni oherwydd yr hinsawdd economaidd a thueddiadau'r diwydiant. Mae'n amgylchedd heriol yn y sector atyniadau twristiaeth. Nododd y Baromedr Twristiaeth: cam yr haf 2025 fod gan 45% o fusnesau twristiaeth yr un lefel o gwsmeriaid a nododd 26% ostyngiad. Ar hyn o bryd mae Cadw yn rhagweld £10.664m, sy'n gynnydd o 2% ar incwm o hyd o gymharu â £10.455m yn 2024-25.

59. Mae gwaith cadwraeth ar yr henebion, mesurau iechyd a diogelwch a chyfleusterau ymwelwyr yn flaenoriaeth bwysig er mwyn gwella arlwy Cadw a'i allu i gynhyrchu incwm. Mae'r gyllideb gyfalaf o £9.196m yn cynnwys darpariaeth ar gyfer canolfan groeso newydd a datblygu Castell Caerffili fel cyrchfan dreftadaeth o'r radd flaenaf gan gefnogi gwaith adfywio Tref Caerffili 2035. Bydd hyn yn helpu i gynyddu cynulleidfaoedd a hyrwyddo llesiant drwy ehangu mynediad, mwynhad a dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol i bawb.

## Dyraniadau at gyllid ar gyfer perchnogion asedau hanesyddol.

60. Yn 2026-27, caiff grant cyfalaf gwerth £3m ei ddyrannu i gefnogi adeiladau hanesyddol a henebion, gan wneud darpariaeth ar gyfer prosiectau grant presennol a phrosiectau yn yr arfaeth sydd wrthi'n cael eu datblygu. Mae mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig a 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, a pherchnogion preifat sy'n berchen ar y mwyafrif ohonynt. Mae'r asedau treftadaeth hyn yn amrywio o henebion cynhanesyddol i adeiladau o'r 20fed ganrif. Mae pob un ohonynt yn chwarae rôl o ran diffinio ein dinasoedd, ein trefi, ein pentrefi a'n tirweddau heddiw a, gyda'i gilydd, maent yn waddol o'n hanes i'w drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

61. Mae grantiau Cadw yn seiliedig ar arwyddocâd yr asedau hanesyddol, manteision cymunedol, cyfraniad at amcanion y Blaenoriaethau ar gyfer

Diwylliant a manteision ehangach y prosiect ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r holl gyllid yn ddarostyngedig i arfarniad diwydrwydd dyladwy a phrosesau craffu mewnol. Caiff grantiau Cadw eu targedu i gefnogi prosiectau na fyddent yn mynd rhagddynt heb gyllid cyhoeddus ac na allant ddenu cyllid drwy lwybrau traddodiadol oherwydd diffyg yn y farchnad neu ddiffyg o ran cadwraeth. Mae gan y prosiectau a ariennir gan Cadw y manteision cadarnhaol canlynol:

- Datblygiad Economaidd: denu twristiaeth a chreu swyddi yn y sector
- Adfywio Economaidd: gall ailddefnyddio asedau hanesyddol mewn ffordd ymaddasol helpu i adfywio economïau a chymunedau lleol.
- Canlyniadau Addysgol: cynnig profiadau dysgu gwerthfawr, gan alluogi pobl i ymgysylltu â hanes a diwylliant yn uniongyrchol. Mae adeiladau hanesyddol yn ffordd ffisegol o'n hatgoffa o'r oes a fu, gan gynnig cipolwg ar fywydau, gwerthoedd a chrefftwaith cenedlaethau'r gorffennol.
- Cynnal Hunaniaeth: Gall asedau hanesyddol fod yn rhan hanfodol o hunaniaeth cymuned, gan adlewyrchu ei hanes a'i chymeriad unigryw.

62. I gefnogi perchnogion asedau hanesyddol i ofalu am eu henebion a'u hadeiladau, mae Cadw hefyd yn cynnig cyngor arbenigol, yn cyhoeddi ystod helaeth o ganllawiau ac yn darparu cyfeiriadau at ffynonellau cyllid grant sydd ar gael y gellir eu lawrlwytho am ddim o wefan Cadw.

63. Mae'r Cynllun Grant ar gyfer Adfywio Adeiladau Rhestredig yn cefnogi gwaith atgyweirio, cadwraeth ac ailddefnyddio cynaliadwy adeiladau rhestredig yng Nghymru gyda'r nod o ddiogelu asedau treftadaeth a chyfrannu at adfywio lleol a budd cymunedol ar yr un pryd.

64. Grantiau Henebion Hanesyddol: mae'n cefnogi perchnogion henebion i wneud gwaith cadwraeth, rheoli a darparu mynediad cyhoeddus i henebion a safleoedd archaeolegol yn amrywio o leoliadau cynhanesyddol i adeiladau'r chwyldro diwydiannol.

65. Gwaith Brys ar gyfer Adeiladau mewn Perygl: i awdurdodau lleol dalu'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno Hysbysiadau Gwaith Brys er mwyn diogelu cyflwr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl neu dan fygythiad.

66. Mae Cadw hefyd yn ariannu'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol a all ddarparu cyngor a chymorth i sefydliadau cymunedol sydd am hyrwyddo cadwraeth adeiladau hanesyddol a chamau i'w hailddefnyddio'n gynaliadwy er budd cymunedau ledled y DU. Gall gynnig cymorth i gymunedau lleol ar bob cam

yng nghylchred oes prosiect – o gyngor i ddechrau arni a grantiau ar gyfer gwaith datblygu a chynllunio prosiect cynnar, hyd at fenthyciadau ar gyfer caffael ac fel cyfalaf gweithio er mwyn cyflawni'r prosiect.

# 4. Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys targedau cynhyrchu refeniw.

67. Y dyraniad yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 i Amgueddfa Cymru yw £28.504m o gyllid refeniw a £5.5m o gyllid cyfalaf. Y dyraniad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yw £12.364m o gyllid refeniw a £2.25m o gyllid cyfalaf.

68. Er fy mod yn gwerthfawrogi ei fod yn gyfnod heriol i'r sector diwylliant o hyd, bydd y cynnydd i'w cymorth grant refeniw yn 2026-27 yn helpu Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, megis Celf, a chynyddu cyflogau yn unol â gweddill y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn cefnogi staff y mae eu sgiliau arbenigol yn helpu i ofalu am ein casgliadau cenedlaethol ac yn helpu i gyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

69. Yn unol â'r egwyddor hyd braich, mater i Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw pennu eu targedau ar gyfer cynhyrchu incwm. Cynnig mynediad am ddim i'r casgliad cenedlaethol yw polisi'r Llywodraeth o hyd er mwyn annog ystod amrywiol o ymwelwyr. Er bod hyn yn cyfyngu ar opsiynau Amgueddfa Cymru i godi incwm, mae'n gosod targedau cynhyrchu incwm blynyddol ac mae'n parhau i dreialu opsiynau ar gyfer cynhyrchu rhagor o incwm.

70. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn perfformio'n dda o ran denu rhoddion elusennol a chymynroddion ond mae'r targed cynhyrchu incwm masnachol yn anodd iddi, gan fod ganddi lai o opsiynau ar y safle i gynhyrchu refeniw o gymharu ag Amgueddfa Cymru, er enghraifft. Nid yw'n briodol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru godi tâl am y rhan fwyaf o'i gwasanaethau ac nid oes ganddi lawer o ddewis o safbwynt codi arian ychwanegol heblaw drwy roddion, gweithgarwch masnachol neu ar gyfer gweithgareddau prosiect, er ei bod yn codi arian.

71. Mae pob un o'r 16 o Flaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn berthnasol i waith Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac mae'r ddwy yn parhau i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i'w cefnogi.

## Asesiad o anghenion cyfalaf Amgueddfa Cymru (gan gynnwys ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru a gwaith parhaus ar safle Caerdydd) a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a sut mae dyraniadau cyllid perthnasol yn ymwneud â'r angen hwn.

Amgueddfa Cymru

72. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae Amgueddfa Cymru yn eu hwynebu wrth ofalu am adeiladau hanesyddol a chadw ein casgliadau cenedlaethol yn ddiogel. Mae Amgueddfa Cymru yn amcangyfrif bod angen gwneud gwerth tua £68m o waith hanfodol i'w hystâd dros 10 mlynedd. Mae'r cynnydd yn ei chymorth grant cyfalaf, a fydd yn £5.5m ar gyfer 2026-27, yn adlewyrchu hyn. Yn amodol ar fforddiadwyedd a darparu achosion busnes cadarn, mae'n bosibl hefyd y bydd Amgueddfa Cymru yn cael cyllid cyfalaf ychwanegol tuag at brosiectau penodol yn ei lleoliadau, yn enwedig Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

73. Bydd cymorth grant uwch y Llyfrgell Genedlaethol yn 2026-27, sef £2.25m, yn helpu i sicrhau diogelwch y casgliadau yn ogystal â'i chefnogi i gyflawni ei hamcan i fod yn garbon niwtral erbyn 2028. Yn amodol ar fforddiadwyedd a darparu achos busnes cadarn, mae'n bosibl hefyd y bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cael cyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn mynd ati i ddatblygu prosiectau hanfodol i helpu gyda'i chynaliadwyedd.

# 5. Y celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru

## Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â Chyngor Celfyddydau Cymru

74. Caiff cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau ei ddarparu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC), sy'n gweithredu o dan yr egwyddor cyllido hyd braich, o fewn y fframwaith strategol a ddarperir gennym. Y dyraniad refeniw yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 yw £33.522m, a'r dyraniad cyfalaf yw £0.9m.

75. Fel asiantaeth ddatblygu sectorau'r celfyddydau yng Nghymru, mae CCC yn dosbarthu dros 90% o'i gyllid blynyddol i sector y celfyddydau drwy gyllid amlflwyddyn i 81 o sefydliadau ledled Cymru, yn ogystal â chymorth prosiect. Mae dyraniadau a wneir i CCC yn cefnogi sectorau'r celfyddydau yn uniongyrchol ac yn effeithio ar fynediad pobl i'r celfyddydau ledled Cymru.

## Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â chyllid i hyrwyddo mynediad i'r celfyddydau.

76. Mae CCC yn cefnogi gweithgarwch celfyddydol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a bydd y dyraniadau yn 2026-27 yn parhau i gefnogi a hyrwyddo cyfraniad hanfodol y celfyddydau i Gymru. Mae cynyddu ac amrywio lefelau mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn llythyr cylch gwaith y Llywodraeth i CCC. Mae CCC yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i Gymorth Grant fel arian craidd ar gyfer sefydliadau celfyddydol strategol, ac rydym yn disgwyl iddo barhau i flaenoriaethu mynediad a gwaith ymgysylltu.

77. Mae Ehangu Ymgysylltiad yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru a CCC, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad a phrosiect a ariennir wneud ymdrech i ymgysylltu â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae'n cefnogi sefydliadau fel Celfyddydau Anabledd Cymru, Hijinx, a Plant y Cymoedd, ac mae'n datblygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gydag awdurdodau lleol mewn ardaloedd lle ceir lefel isel o weithgarwch celfyddydol.

78. Bydd menter CCC, Hynt, sef cynllun mynediad ledled Cymru sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau, yn parhau i sicrhau ei bod yn haws ac yn decach i bobl anabl a gofalwyr fwynhau profiadau celfyddydol yn 2026-27.

79. Wrth fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf diwylliannol mawr, yn enwedig Theatr Clwyd a'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol, y nod yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a darparu mynediad gwell, yn enwedig yn y gogledd a'r canolbarth.

## Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â chyllid gyda'r nod o annog/galluogi sefydliadau celfyddydol i gynhyrchu mwy o'u hincwm eu hunain.

80. Mae CCC yn annog sefydliadau celfyddydol sy'n gwneud cais i gynhyrchu mwy o'u hincwm eu hunain. Mae CCC yn disgwyl i sefydliadau gyfrannu at gost unrhyw brosiect neu ddyfarniad grant, fel arfer drwy'r incwm y maent yn ei ennill eu hunain neu drwy godi arian yn allanol. Mae cyfleoedd yn y dyfodol i'r sector gael cymorth ar ffurf hyfforddiant a gweithdai yn debygol o gynnwys cydnerthedd busnes fel un o'r prif themâu.

81. Mae CCC yn annog ac yn cefnogi buddsoddiad mewn sefydliadau ar ffurf buddsoddiad cyfalaf. Yn 2025-26, mae Rhaglen Cyfalaf Strategol gwerth £8m ar gyfer Sector y Celfyddydau wedi cefnogi 40 o sefydliadau ledled Cymru, ac rydym yn ystyried a ellid ehangu'r cynllun i 2026-27 ac, os felly, ar ba lefel. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gwelliannau cyfalaf a wneir yn cael effaith ar allu i ddenu cynulleidfaoedd a chynhyrchu incwm ychwanegol.

## Asesiad o'r graddau y mae cynulleidfaoedd wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, a sut y caiff hyn ei ystyried mewn dyraniadau.

82. Nid yw cynulleidfaoedd wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Ar draws sefydliadau a ariennir gan CCC dros sawl blwyddyn, mae'r ffigurau yn dangos y bu 3.5m o bobl yn bresennol mewn digwyddiadau yn 2024-25 o gymharu â 4.0m yn 2019-20.

83. Mae amrywiadau o ran presenoldeb mewn digwyddiadau penodol hefyd. Er enghraifft, mae presenoldeb mewn digwyddiadau dangos ffilmiau i lawr 37.7% o gymharu â ffigurau 2019-20 ac mae presenoldeb mewn lleoliadau cyflwyno i fyny 16.8% o gymharu â'r un flwyddyn.

84. Mae blaenoriaethau cyllido yn yr amgylchedd anodd hwn wedi gweld galw am Theatr a Cherddoriaeth fyw yn ysgogi cynulleidfaoedd sy'n dychwelyd.

## Cyfanswm buddsoddiad cyfalaf yn yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol ers i'r prosiect ddechrau, ac amcangyfrif o gostau refeniw parhaus, ac y ble y bydd y rhain yn dod.

85. Ers blwyddyn ariannol 2017-18, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyfanswm o £7.36m mewn taliadau cyfalaf i gefnogi Celf.

86. Mae'r tri sefydliad partner (Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru) wedi cyflwyno amcangyfrifon ar gyfer costau refeniw parhaus Celf. Yn hyn o beth, gwnaed cais i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfraniad o £350k y flwyddyn am y ddwy flynedd gyntaf, tuag at y costau refeniw blynyddol o £2.6m. Darperir cyllid o nifer o ffynonellau, gan gynnwys cyllidwyr allanol a'r partneriaid eu hunain.

87. Ceir amcangyfrif o'r costau refeniw arfaethedig ar gyfer Celf yn 2026-27, ac o ble y bydd y rhain yn dod, yn y tabl isod.

<u>Tabl Cyfraniadau Cost Celf 2026-27: Cytundeb Mewn Egwyddor</u>

| Incwm | 2026-27 |
|---|---:|
| Cyngor Celfyddydau Cymru (Loteri) | £40,000.00 |
| Cymorth Grant Amgueddfa Cymru | £197,558.50 |
| Cymorth Grant Llyfrgell Genedlaethol Cymru | £75,084.50 |
| Cymorth Grant Cyngor Celfyddydau Cymru | £1,985,330.00 |
| Ymddiriedolaeth a Sefydliadau | £52,957.00 |
| Cyfraniad Refeniw Llywodraeth Cymru | £350,00.00 |
| Cyfraniad Cyfalaf Llywodraeth Cymru | £45,000.00 |
| Cyfanswm | £2,745,930.00 |

88. Mae Amgueddfa Cymru bellach yn arwain y gwaith cyflawni drwy'r bartneriaeth. Y ffocws ar gyfer 2026/27 fydd ymgorffori a chryfhau'r model gweithredu presennol ymhellach. Fel y sefydliad arweiniol, mater i Amgueddfa Cymru fydd gweithio gyda'r partneriaid eraill maes o law i ddatblygu a chyflwyno cynigion yn y dyfodol ar gyfer buddsoddiad pellach yn y rhwydwaith, i Lywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill eu hystyried.

# 6. Y Cyfryngau a Darlledu – Diwydiannau Creadigol

## Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â Cymru Greadigol (gan gynnwys cyllid i'w ddosbarthu gan Cymru Greadigol).

89. Yn 2025-26, cyfanswm dyraniad cyllidebol Cymru Greadigol yw £7.008m o gyllid refeniw a £7m o gyllid cyfalaf (£14,008m). Yn ogystal, trosglwyddwyd £1,367m o Brif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol i gefnogi ail flwyddyn y grant ardrethi annomestig ar gyfer stiwdios cymwys yng Nghymru. Cynyddodd hyn gyfanswm y dyraniad refeniw i £8,375m.

90. Mae ein buddsoddiad yn canolbwyntio ar sectorau â blaenoriaeth y sgrin (Ffilm a Theledu), cerddoriaeth, digidol a chyhoeddi ochr yn ochr ag ymrwymiadau i'r sector darlledu a'r sector newyddiaduriaeth, yn ogystal â chyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i wella sgiliau ar gyfer y diwydiant.

91. Drwy ddarparu cymorth cyfalaf i gynhyrchu creadigol, mae Cymru bellach yn cael ei hystyried yn lleoliad ffafriol iawn ar gyfer cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu mawr. Mae ein cyllid cynhyrchu yn cefnogi llif pwysig o gyfleoedd. Ers 2020, mae Cymru Greadigol wedi darparu gwerth £30.8m o gyllid cynhyrchu i 64 o gynyrchiadau (llythyrau cynnig wedi'u llofnodi) ac mae dau gynhyrchiad arall wedi'u hargymell gan Banel (66 mewn 6 blynedd) ar yr amod y caiff £376.7m ei wario'n ôl yn economi Cymru.

92. Rydym wedi cefnogi 540 o leoliadau lefel mynediad am dâl a lleoliadau uwchsgilio gweithwyr dan hyfforddiant o fewn prosiectau a ariannwyd Cymru Greadigol, gan gynnwys 67 o leoliadau prentisiaeth am dâl. Mae hyn yn helpu i gefnogi newydd-ddyfodiaid yn ogystal â chriwiau presennol i ennill sgiliau a phrofiad gwerthfawr a datblygu eu gyrfaoedd.

93. Ers mis Ebrill 2025, rydym wedi buddsoddi mewn 8 prosiect cynhyrchu cyfalaf sy'n werth cyfanswm o £1.9m a disgwylir i'r prosiectau hyn gynhyrchu dros £26m o wariant rhagamcanol yng Nghymru. Nod y cynllun yw cefnogi twf Cymru fel cyrchfan ar gyfer cynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf. Mae'r cyllid yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu a chwmnïau datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau a fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol a chynyrchiadau o'r tu allan i Gymru sy'n awyddus i ffilmio yng Nghymru.

94. Gan weithio gyda Ffilm Cymru (FfC), mae £3.475m wedi cael ei ddyrannu i 14 o brosiectau ffilm hir rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mawrth 2026 ar yr amod y caiff £30m ei wario'n ôl yn economi Cymru. Mae adolygiad cynlluniedig o'r rhaglen yn mynd rhagddo fel y gellir craffu'n briodol ar effaith economaidd y cynyrchiadau a gyllidwyd eisoes ac ystyried y ffordd fwyaf priodol o gynyddu effaith yr IFTC newydd ar y sector cynhyrchu ffilmiau yng Nghymru.

95. Yn 2025-26, gwnaethom lansio ail flwyddyn y gronfa ardrethi annomestig ar gyfer stiwdios, a sefydlwyd yn 2024 i gefnogi stiwdios y mae'r Ailbrisiad Ardrethi Annomestig yn effeithio arnynt. Daeth Ailbrisiad Ardrethi Annomestig diweddaraf Llywodraeth y DU i rym ar 1 Ebrill 2023 gan aseinio ardrethi busnes diwygiedig er mwyn adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad rentu. O ganlyniad i'r newid hwn, mae ardrethi rhai sectorau, gan gynnwys stiwdios, wedi cynyddu'n sylweddol. Mae parhau gyda'r gronfa yn golygu bod cymorth ar gael gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol er mwyn helpu i liniaru effaith y cynnydd hwn. Dyfarnwyd gwerth £914,707 o grantiau i dair o'r pedair stiwdio gymwys hyd yn hyn o dan y cynllun hwn.

96. Rydym yn parhau i ddarparu cyllid i gefnogi'r sector cerddoriaeth fasnachol. Mae ein cytundeb diweddar i ddyfarnu dros £731k o gyllid cyfalaf i 22 o brosiectau Cerddoriaeth arloesol yn 2025/26 yn golygu bod Cymru Greadigol wedi darparu dros £11 miliwn o gymorth i leoliadau a busnesau cerddoriaeth ers ei sefydlu yn 2020. Mae hyn yn ogystal â thros £400k mewn refeniw a ddarparwyd drwy gymorth strategol i raglenni fel Focus Wales, PRS Momentum, Pyst ac i gyflwyno rhaglen Beacons.

97. Rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i ddatblygu sgiliau yn y sector yn unol ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, drwy ein Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol a'r Gronfa Sgiliau Creadigol. Lansiwyd Rownd 2 y Gronfa Sgiliau yng ngwanwyn 2024 a chefnogodd 17 o brosiectau ychwanegol â gwerth £1.5m o gyllid. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar sicrhau mwy o amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector creadigol yng Nghymru.

98. Y flwyddyn ariannol hon, mae 51 o hyfforddeion hyd yma wedi cwblhau lleoliadau â thâl ar gynyrchiadau a gyllidir gan Cymru Greadigol ac mae 69 ar leoliadau ar hyn o bryd.

99. Yn ogystal â hyn, mae Cymru Greadigol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Sgil Cymru i sicrhau £900,000 o gyllid gan Sefydliad Ffilmiau Prydain (BFI) i ddarparu rhaglen Clwstwr Sgiliau i Gymru. Caiff y cyllid ei ddyrannu'n uniongyrchol gan BFI i Sgil Cymru i gynnal y rhaglen tan fis

Mawrth 2026 a bydd angen £150,000 o gyllid cyfatebol gan Cymru Greadigol yn 2025/26 sy'n golygu y bydd ein hymrwymiadau cyllidebol ar gyfer sgiliau dros £1m y flwyddyn.

## Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas ag unrhyw gyllid ar gyfer y cyfryngau, newyddiaduraeth a darlledu.

100. Yn 2025-26, mae £200,000 wedi cael ei neilltuo i gynnal Cronfa Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd, a gafodd ei lansio ym mis Gorffennaf 2025. Mae opsiynau wrthi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd i ymrwymo £150,000 pellach i weithgarwch i gefnogi sector y cyfryngau yng Nghymru.

101. Mae cyfanswm o £3,760,000 o gyllid refeniw a £30,000 o gyllid cyfalaf wedi cael eu dyfarnu i Gyngor Llyfrau Cymru yn 2025-26 i gefnogi'r sector cyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys cyllid refeniw blynyddol ar gyfer y Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg. Yn ogystal, dyfarnwyd £150,000 i sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli yn Ffeiriau Llyfrau Llundain, Bologna a Frankfurt yn ogystal â chyfalaf ychwanegol gwerth £270,000 ar gyfer prosiect TG hanfodol.

102. Mae ein gwaith gyda'r sector sgrin a darlledwyr, gan gynnwys drwy ein Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â'r BBC ac S4C, wedi parhau i gefnogi cynyrchiadau i ffilm yng Nghymru yn 2025-26. Ceir rhestr lawn o'r cynyrchiadau a gefnogwyd hyd yma yn Atodiad D.

103. Cytunir ar y gyllideb i gefnogi'r cyfryngau, newyddiaduraeth a darlledu ar gyfer 2026-27, gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru, fel rhan o broses ffurfiol y gyllideb.

# 7. Cymorth i'r sector cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu

Y ffigurau diweddaraf ar gyfer cyllid cynhyrchu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyfanswm buddsoddiad a gwariant yng Nghymru (wedi'u dadansoddi fesul prosiect).

104. I grynhoi, ers 2020, mae £30.8m o gyllid cynhyrchu (sydd bellach hefyd yn cynnwys buddsoddiadau mewn gemau ar ôl i'r meini prawf gael eu diwygio) wedi cael ei ddarparu i 64 o brosiectau, gan gynhyrchu dros £376.7m yn economi Cymru. Fel rhan o'r cynyrchiadau a gyllidwyd, mae Cymru Greadigol wedi cefnogi cyfanswm o 540 o leoliadau â thâl.

Y ffigurau diweddaraf mewn perthynas â benthyciad Llywodraeth Cymru i Bad Wolf Studios, gan gynnwys cyfanswm yr ad-daliadau a'r gwariant yng Nghymru (wedi'u meincnodi yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru).

105. Cyfanswm y llog sy'n ddyledus ar y trefniant benthyca yw £1.064m a dechreuodd yr ad-daliadau yn 2020-21. Mae Bad Wolf wedi ad-dalu'n llawn erbyn hyn.

Manylion unrhyw drefniant grant parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Great Point Studios (GPS).

106. Caiff Great Point Studios ei redeg fel busnes preifat. Dyfarnwyd cyllid cyfalaf i Great Point Studios yn 2023. Mae gwaith adeiladu wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd 2025 a chaiff y safle hwn ei ehangu i gyfanswm o 257,000 o droedfeddi sgwâr.

107. Yn ogystal â hyn, fel rhan o grant ardrethi annomestig Cymru Greadigol ar gyfer stiwdios a lansiwyd yn 2024, mae GPS wedi cael cymorth grant yn 2024 a 2025.

Disgrifiad o'r strategaeth a'r targedau ar gyfer buddsoddiadau mewn cynyrchiadau sgrin a wnaed gan Cymru Greadigol.

108. Y Cyllid Cynhyrchu ar ei newydd wedd a lansiwyd ym mis Mai 2023 yw'r prif ddull o gefnogi gweithgarwch sgrin yng Nghymru o hyd. Nod y cynllun yw cefnogi twf Cymru fel cyrchfan ar gyfer cynhyrchu deunydd o'r radd flaenaf.

Mae'r cyllid yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu a chwmnïau datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau a fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol yn ogystal ag ar gyfer y cynyrchiadau hynny o'r tu allan i Gymru sy'n awyddus i ffilmio yng Nghymru. Er mai'r effaith ar economi Cymru drwy wariant ar griw, cyfleusterau, lleoliadau ac ati yw un o'r prif allbynnau o hyd, mae'r gronfa hefyd yn ceisio sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o gyfleoedd i hyfforddi a datblygu sgiliau ar gael ar gynyrchiadau a ariennir. Mae'r gronfa yn blaenoriaethu cynnwys sy'n dangos y gorau o Gymru o ran diwylliant, iaith a daearyddiaeth, rhywbeth a gafodd ei arddangos yn llwyddiannus gan rai cynyrchiadau diweddar a gefnogwyd gan Cymru Greadigol, megis The Guest, Cleddau / The one that got away, Hafiach, a Death Valley. Llwyddodd pob un ohonynt i gynnig portread realistig o Gymru i gynulleidfaoedd rhwydwaith. Mae'r Gronfa hefyd yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sector sy'n cynnig cyfleoedd cyfartal ac amrywiol ar gyfer swyddi medrus hirdymor ac un sy'n gofalu am lesiant staff presennol.

## Asesiad o effaith cyllid cynhyrchu a ddarperir drwy Ffilm Cymru, a dyraniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

109. Fel rhan o'r rhaglen dair blynedd gychwynnol, mae 14 o ffilmiau hir wedi derbyn cyllid cynhyrchu gwerth cyfanswm o £3.5m a disgwylir y bydd hyn yn rhoi hwb o fwy na £30m i economi Cymru.

110. Arweiniodd streic actorion SAG-AFTRA yn 2023 at oedi o safbwynt y brif ffotograffiaeth ar gyfer rhai o'r cynyrchiadau a gyllidwyd. Bu'n rhaid dod â rhai cynyrchiadau i ben hefyd, a chafodd y cyllid ei ddyrannu i brosiectau eraill. O ganlyniad i'r oedi a achoswyd gan y streiciau, 2025 oedd y flwyddyn lle roedd y cynyrchiadau cyntaf a gyllidwyd yn gymwys i gystadlu mewn gwyliau a chael eu rhyddhau'n fasnachol wedi hynny. Mae enghreifftiau o gynyrchiadau a gyllidwyd gan Cymru Greadigol yn llwyddo yn 2025 yn cynnwys ffilm hir Brides a gafodd ei dangos gyntaf yng Nghystadleuaeth Ddramatig Sinema'r Byd Sundance cyn cael llwyddiant yng Ngŵyl Ffilmiau Munich a Gŵyl Ffilmiau Caeredin yn nes ymlaen yn y flwyddyn; The Man in My Basement a ddangoswyd gyntaf yng Ngŵyl Ffilmiau Ryngwladol Toronto yn y categori Darganfod a H is for Hawk sef ffilm gyntaf Cymru i gael ei harddangos yng Ngŵyl Ffilmiau fawreddog Telluride yn 2025 (yn 2024 lansiodd yr ŵyl hon lwyddiant Conclave, Emilia Perez ac Anora yn nhymor y gwobrau, ac aeth Anora ymlaen i ennill Oscar yn y categori ‘Best Picture’). Yn ogystal, arddangoswyd Madfabulous, stori yn seiliedig ar Ynys Môn am 5ed Ardalydd Bute Henry Paget, fel rhan o arddangosiad Great8 y DU yng Ngŵyl Ffilmiau

Cannes a bwriedir i'r ffilm gael ei dangos gyntaf a'i rhyddhau mewn sinemâu ym mis Ionawr 2026.

111. Yn fasnachol, mae cynyrchiadau Cymru Greadigol a ryddhawyd mewn sinemâu yn 2025 yn cynnwys Mr. Burton, Brides a The Man in My Basement. Mae Mr Burton, a ryddhawyd ym mis Ebrill 2025 ac a gyd-gynhyrchwyd gan y cwmni o Gymru, Severn Screen, a'r cwmni cynhyrchu o LA, Brookstreet Pictures, a oedd yn gyfrifol am ffilm The Brutalist a enillodd wobrau Oscar, ymhlith y 10 ffilm annibynnol uchaf yn y DU ar gyfer 2025 o ran gwerthiannau yn y swyddfa docynnau a chafodd ei rhyddhau yn Awstralia a Seland Newydd ym mis Awst, gan gyrraedd rhif 3 yn siartiau Awstralia a rhif 1 yn Seland Newydd. Bwriedir rhyddhau'r ffilm yn yr UD ym mis Tachwedd er mwyn cyd-fynd â beth fyddai wedi bod yn ben-blwydd Richard Burton yn 100 oed ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â swyddfa Llywodraeth Cymru yn yr UD er mwyn rhoi cymaint o sylw â phosibl i'r lansiad hwn. Rhyddhawyd Brides a The Man in My Basement ym mis Medi 2025.

# 8. Chwaraeon

## Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â Chwaraeon Cymru.

112. Yn y Gyllideb Ddrafft hon rydym wedi dyrannu £23.239m o gyllid refeniw a £10.5m o gyllid cyfalaf i Chwaraeon Cymru er mwyn parhau i gefnogi rhaglenni allweddol, megis buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau a datblygu chwaraeon llawr gwlad ac elît.

## Manylion am wariant o adrannau eraill sy'n cyfrannu at chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

113. Mae cyllidebau eraill sy'n cyfrannu at chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cynnwys Addysg (rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy), Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol (Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol), Iechyd (Pwysau Iach: Cymru Iach) a Llywodraeth Leol, drwy ei buddsoddiad mewn gwasanaethau a chyfleusterau hamdden. Nid yw'n bosibl mesur yr union ddyraniadau ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol o'r meysydd gwariant hyn gan adrannau eraill.

## Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i "sicrhau mai chwaraeon yw offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol y wlad".

114. Ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu yw hyrwyddo mynediad cyfartal i chwaraeon, cefnogi athletwyr ifanc a dawnus a chlybiau llawr gwlad, a buddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon o safon fyd-eang ac mewn cyfleusterau newydd. Mae hyn yn cydnabod bod chwaraeon yn hollbwysig i'n heconomi, i iechyd ac i'n bywyd cenedlaethol. Mae'r cyllid rydym yn ei ddarparu i Chwaraeon Cymru er mwyn cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yn ceisio sicrhau bod Cymru yn genedl heini lle gall pawb fwynhau chwaraeon drwy gydol eu hoes ac achub ar y manteision iechyd corfforol a meddyliol.

115. Gyda grant cyfalaf uwch o £10.5m yn 2026-27, bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon newydd ac wedi'u hadnewyddu sy'n allweddol i gefnogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ac achub ar y manteision cadarnhaol a gynigir i iechyd a llesiant.

## Dyraniadau sy'n berthnasol i baratoadau ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr (e.e. Tour de France Grand Depart ac EURO 28)

116. Defnyddir y cyllid i gefnogi paratoadau parodrwydd ar gyfer cynnal y digwyddiadau mawr hyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â gwledydd eraill y DU, UK and Ireland Ltd ac UEFA, yn cydweithio i gynnal y twrnamaint EUROs gorau erioed yn 2028. Bydd y digwyddiadau hyn yn ennyn diddordeb a chyffro cefnogwyr ym mhedwar ban byd ac yn ysbrydoli newid cadarnhaol drwy chwaraeon – gan gyflawni manteision ystyrlon i gymunedau lleol ledled pob un o wledydd y DU.

117. Defnyddir cyllid i sicrhau y caiff y digwyddiadau hyn eu cynnal i'r lefelau gweithredol a llywodraethu uchaf – yn unol ag arferion gorau rhyngwladol ar gyfer rheoli digwyddiadau – er budd y cefnogwyr, y timau, y cyhoedd ehangach a'r holl randdeiliaid.

# 9. Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

Dyraniadau cyllid ar gyfer ymrwymiadau a amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu o dan y pennawd 'Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu'.

Sicrhau y caiff hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ei adlewyrchu'n briodol ar draws ein sectorau diwylliannol a threftadaeth gan gynnwys mewn Amgueddfeydd Cenedlaethol

118. Yn unol â blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi cymryd camau sylweddol i sicrhau bod hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael ei gynrychioli'n gywir ar draws sectorau diwylliannol a threftadaeth Cymru. Mae cyllid wedi'i dargedu wedi cael ei ddarparu i sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a llawr gwlad er mwyn adrodd y straeon hyn mewn ffordd ddilys ac adlewyrchu cyfraniadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn canolbwyntio ar ehangu mynediad a chyfranogiad, wrth feithrin gallu'r sector i adnabod achosion o hiliaeth sefydliadol a systemig, mynd i'r afael â nhw a chael gwared arnynt.

119. Yn 2025-26, gwnaethom ehangu'r cynllun hwn er mwyn cynnwys mathau eraill o amrywiaeth, gan adeiladu ar gynnydd a chryfhau effaith drwy fentrau parhaus wedi'u targedu, camau i ddatblygu galluogrwydd y sector cyfan a buddsoddi mewn prosiectau diwylliannol a arweinir gan gymunedau. Gwnaethom ganolbwyntio'n arbennig ar gefnogi sefydliadau llawr gwlad, y gwyddom eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o ffrydiau cyllido ar gyfer diwylliant. Yn y dyfodol, rydym yn ystyried y ffordd orau o brif ffrydio'r gwaith hwn o fewn ein rhaglenni grant ehangach.

Sefydlu Cronfa Ymchwil a Datblygu Diwydiannau Creadigol

120. Mae Cymru Greadigol wedi hwyluso nifer o fentrau cyllido Ymchwil a Datblygu ers ei sefydlu. Cafodd Ymchwil a Datblygu ei gynnwys fel maes allweddol â blaenoriaeth fel rhan o Gronfa Ddatblygu Cymru Greadigol a gafodd ei lansio yn 2021-22. Mae cyllid datblygu gwerth £1.1m wedi'i ddyrannu'n llawn i'w ddosbarthu yn ystod 2021-22 a 2022-23 i 51 o gwmnïau creadigol. Ym mis Gorffennaf 2023, cafodd ail rownd o gronfeydd datblygu ei lansio a 35 o brosiectau gyda chyfanswm o fwy nag £0.980 ar gyfer gwariant yn 2023-24 a 2024-25. Yn 2025-26, lansiwyd trydedd rownd Cronfa Ddatblygu Cymru

Greadigol gyda Gemau, a dyfarnwyd dros £628k i 13 o brosiectau. Caiff cronfa bellach ar gyfer sgrin/animeiddiad ei lansio yn yr hydref gyda chyfanswm cyllideb o £500k. Nod y Cyllid Datblygu Teledu a Digidol yw rhoi cymorth penodol er mwyn helpu i dyfu cwmnïau cynhenid yn y byd teledu a digidol, gan helpu cwmnïau i ddatblygu cynhyrchion ac eiddo deallusol newydd ac ennill busnes newydd.

121. Caiff rhaglen media.cymru, sy'n werth £50m ac a gaiff ei chynnal rhwng 2022 a 2026, ei hariannu drwy £22m o Gronfa flaenllaw 'Strength in Places' Ymchwil ac Arloesi yn y DU, £3m gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, £500m gan Lywodraeth Cymru, drwy Cymru Greadigol, ac arian cyfatebol gwerth £23m gan y diwydiant a phrifysgolion partner. Mae rhaglen Media Cymru, a gefnogir gan Cymru Greadigol, yn cynnwys pecyn gwaith i ddarparu cronfa Ymchwil a Datblygu Cymru gyfan ar gyfer y Diwydiannau Creadigol. Mae'r dyfarniad cyllid llawn o £500k wedi cael ei hawlio. Mae Cymru Greadigol wrthi'n ystyried cyfleoedd i gefnogi rhaglenni Ymchwil a Datblygu ar gyfer 2026-27.

<u>Sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol</u>

122. Sefydlwyd y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol yn 2022, yn unol ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi plant a phobl ifanc i elwa ar gyfleoedd i chwarae offeryn cerdd, canu a chymryd rhan mewn gweithgareddau creu cerddoriaeth. Caiff cam newydd rhaglen y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol (2025-2028) ei gefnogi o dan Raglen Cymorth Grant y Cwricwlwm i Gymru, gyda chyllid o £12 miliwn dros y cyfnod hwn o dair blynedd.

<u>Buddsoddi yn Theatr Clwyd</u>

123. Caiff y buddsoddiad cyfalaf a'r gwaith yn Theatr Clwyd eu cwblhau yn fuan ac ni fyddant yn parhau i flwyddyn ariannol 2026-27 ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y cyfnod hwnnw.

124. Bydd Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu £24.5m tuag at gyfanswm cost y prosiect ailddatblygu sydd dros £47m, yn ogystal â chyfraniad cynharach o £3m ar y cam dichonoldeb prosiect.

<u>Sefydlu Amgueddfa Bêl-droed</u>

125. Bydd y cyfraniad cyfalaf tuag at y gwaith adeiladu yn Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn Amgueddfa Wrecsam yn dod i ben ar ddiwedd 2025-2026. Nid oes

unrhyw fuddsoddiad cyfalaf pellach wedi'i gynllunio drwy 2026-27 ar hyn o bryd.

126. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu £5.5m tuag at y gost adeiladu o £11.8m ar gyfer dwy elfen yr amgueddfa, h.y. creu Amgueddfa Bêl-droed ac ailddatblygu Amgueddfa Wrecsam.

Sefydlu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol

127. Ceir gwybodaeth mewn perthynas â'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol uchod.

Ystyried y syniad o greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru a darparu buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu mentrau i wella'r cyfryngau a newyddiaduraeth yng Nghymru

128. Cafodd yr ymrwymiad i ystyried creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru ei gyflawni ym mis Mawrth 2024, pan ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad y Panel Arbenigol ar yr Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru.

129. Yn 2025-26, mae £200,000 wedi cael ei neilltuo i gynnal Cronfa Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd, a gafodd ei lansio ym mis Gorffennaf 2025. Diweddarodd Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru ei gylch gorchwyl yn 2025 ac mae'n parhau i gyfarfod a chwarae rôl bwysig wrth helpu i nodi opsiynau er mwyn cefnogi camau i wella'r cyfryngau a newyddiaduraeth yng Nghymru.

Mynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli pwerau darlledu a chyfathrebu

130. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r nod o gefnogi prosiect ymchwil i archwilio, yn fanylach, y pum llwybr datganoli a nodwyd yn adroddiad y panel arbenigol.

131. Yn 2025-26, mae Cymru Greadigol wedi parhau i weithio gyda rhanddeiliaid darlledu gan gynnwys Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Ofcom, darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus, Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) a Pact i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried wrth ddatblygu rheoliadau, polisïau ac ymyriadau perthnasol. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau ar adolygiad PSM Ofcom, prosiect 'Future of TV Distribution' a'r Adolygiad o Siarter y BBC.

132. Yn ogystal, mae'r gweithgareddau a gynhelir gan Gyngor Llyfrau Cymru yn cyflawni yn erbyn nifer o flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu ac yn dangos cysylltiadau â phob un o'i deg amcan llesiant. Mae'n cefnogi gweithgarwch ar ben ei gylch gwaith diwydiannau creadigol sy'n gysylltiedig ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, hunaniaeth genedlaethol, addysg, iechyd a llesiant a hyrwyddo Cymru i'r byd.